

Adroddiad Thematig Gwasanaethau Offthalmoleg AGIC

Cynllun gweithredu yn sgil argymhellion – Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr – 8 Chwefror 2017.

Canfyddiad yr adroddiad	Gwybodaeth am yr argymhellion	Camau gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)	Yn gyfrifol	Amserlen
Materion sy'n ymwneud â'r broses o atgyfeirio cleifion	Rhaid i'r holl bartïon (Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio Offthalmoleg a'r byrddau iechyd) weithio gyda'i gilydd tuag at gyflwyno system electronig ar gyfer trosglwyddo cofnodion cleifion/atgyfeirio cleifion yn uniongyrchol o optometryddion i wasanaethau gofal eilaidd	Mae datrysiad parhaus yn cael ei ddatblygu ar lefel genedlaethol. Mae staff clinigol ac anghlinigol meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd BIPBC yn cynrychioli ac yn cyfrannu at waith cenedlaethol (arweinydd clinigol, cyfarwyddwr cynorthwyol gofal sylfaenol)	Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru	Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru i gadarnhau
Roedd Adolygiad Offthalmoleg Cenedlaethol y Cyngor Iechyd Cymuned yn dangos bod rhai cleifion yn teimlo nad oeddent wedi derbyn digon o wybodaeth ynglŷn â'r rheswm dros eu hatgyfeiriad	Dylai byrddau iechyd weithio gydag optometryddion, trwy grwpiau gofal llygaid lleol, i sicrhau bod cleifion yn derbyn gwybodaeth ddigonol a hygyrch ynglŷn â'r rheswm dros gael eu hatgyfeirio i wasanaeth gofal eilaidd, ac i sicrhau bod pob claf yn teimlo y gwrandewir arno a'i fod yn cael ei gynnwys yn y penderfyniadau a wneir ynglŷn â'i ofal	Gorllewin Mae llyfryn gwybodaeth i gleifion am ddirywiad macwlaidd 'gwlyb' sy'n gysylltiedig ag oedran (AMD gwlyb) ar gael ym mhob practis optometreg a bydd pob optometrydd yn cael ei atgoffa ei fod yn arfer da cyflwyno'r llyfryn. Dwyrain Mae pecyn gwybodaeth i gleifion yn cael ei ddatblygu yn y dwyrain, a fydd yn gofnod a gedwir gan y claf yn achos y cleifion hynny sy'n cael eu rhoi ar restr i gael triniaeth. Bydd hwn yn darparu gwybodaeth	Helen Pickford (Optometrydd) Debbie Taylor (Gwellla Gwasanaethau)	31 Ion 2017 31 Maw 2017

		gynhwysfawr am gyflwr y claf a'r hyn y dylid ei ddisgwyl. Canol Mae llyfryn gwybodaeth i gleifion am AMD gwlyb ar gael ym mhob practis optometreg a bydd pob optometrydd yn cael ei atgoffa ei fod yn arfer da cyflwyno'r llyfryn. Byddwn yn monitro effeithiolrwydd y modelau gwybodaeth gwahanol ym mhob ardal ac yn cymharu â'r pryderon a fynegir er mwyn llunio trefniadau.	Kevin Smith (Optometrydd) Grŵp Cydweithredol Gofal Llygaid	28 Chwe 2017 Rhag 17
Ansawdd yr atgyfeiriadau sy'n cael eu hanfon at y llwybr mynediad cyflym	a) Dylai byrddau iechyd ystyried dulliau ar gyfer mireinio atgyfeiriadau i sicrhau bod cleifion yn cael mynediad at y llwybr gofal mwyaf priodol mewn modd amserol ac effeithlon, gan osgoi ymweliadau diangen b) Dylai byrddau iechyd ystyried darparu digwyddiadau/deunyddiau addysgol i godi ymwybyddiaeth o lwybrau atgyfeirio lleol ymhlith optometryddion a staff perthnasol eraill c) Dylai byrddau iechyd sicrhau y rhoddir adborth i optometryddion pan ofynnir amdano, ynglŷn ag	Mae gan bob safle linell ffacs bwrpasol ar gyfer atgyfeiriadau AMD gwlyb o ofal sylfaenol. Mae atgyfeiriadau'n cael eu brysennu o fewn 24–48 awr gan glinigydd a gofynnir am ddiagnosteg. Gan ddibynnu ar y canlyniad, anfonir cleifion naill ai at glinig AMD gwlyb neu glinig cyffredinol os yw AMD gwlyb wedi'i eithrio. Cytunwyd yn y grŵp Llwybr Lleol y byddai cyfarfod yn cael ei drefnu rhwng ymgynghorwyr gofal eilaidd ac optometryddion tair gwaith y flwyddyn. Bydd adborth atgyfeirio'n eitem ar yr agenda. Bydd adborth ad hoc drwy'r grŵp Llwybr Lleol ar bob safle yn cael ei ddarparu o hyd.	Arweinwyr Clinigol Arweinydd Clinigol Helen Pickford Arweinwyr clinigol ac Arweinwyr	Wedi'i gwblhau 31 Maw 2017 Wedi'i gwblhau

	ansawdd yr atgyfeiriadau a anfonir, i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu		Optometrigr	
Diffyg adborth yn cael ei roi i optometryddion yn dilyn atgyfeirio a rhyddhau cleifion	a) Dylai byrddau iechyd sicrhau bod adborth ynglŷn â'r diagnosis a'r cynllun triniaeth yn cael ei roi i'r optometrydd a wnaeth yr atgyfeiriad yn dilyn pob atgyfeiriad a wneir i'r gwasanaeth, gan gynnwys p'un a wnaed atgyfeiriad i wasanaeth golwg gwan neu beidio	Gorllewin Mae angen i'r broses o gofrestru atgyfeiriad ar y System Rheoli Gwybodaeth Cleifion (PIMS) gynnwys yr optometrydd a wnaeth yr atgyfeiriad er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys yn y llythyr yn dilyn yr apwyntiad (fe'i hanfonir at yr ymarferydd cyffredinol yn unig ar hyn o bryd). Bydd y ganolfan cadw apwyntiadau i gleifion yn dechrau cyflwyno'r drefn. Dwyrain Bydd y broses o gofrestru atgyfeiriad ar Myrddin yn cynnwys yr optometrydd a wnaeth yr atgyfeiriad. Bydd broses brawf yn cael ei chreu yn ystod mis Chwefror i anfon llythyrau clinig/gwybodaeth ryddhau at optometryddion Canol Mae modd cofnodi manylion yr optometrydd a'r ymarferydd cyffredinol ar y cofrestrriad yn System Gweinyddu Cleifion Cymru (WPAS)	Rheolwr Cyffredinol Rhanbarthol	1 Maw 2017
		Cyflawnwyd ar bob safle	Rheolwr Arbenigedd y Safle	31 Maw 2017
	b) Rhaid i optometryddion ddefnyddio'r ffurflen atgyfeirio briodol a sicrhau bod eu henw a chyfeiriad eu practis yn glir ac yn ddarllenadwy		Rheolwr Cyffredinol Rhanbarthol	1 Maw 2017
	c) Rhaid i fyrddau iechyd/Llywodraeth Cymru sicrhau bod systemau ar waith i gynyddu'r wybodaeth sydd ar	Bydd copi o'r llythyr yn dilyn yr apwyntiad	Arweinwyr Clinigol Arweinydd Clinigol	Wedi'i gwblhau 1 Maw 17

	gael i optometryddion mewn perthynas â chleifion sydd wedi cael eu rhyddhau o ofal eilaidd	yn cael ei anfon at yr optometrydd a wnaeth yr atgyfeiriad (gweler uchod)	Arweinydd Optometreg	
Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned yn nodi pryderon ynglŷn â diffyg gwybodaeth yn cael ei rhoi mewn gofal eilaidd cyn triniaeth	Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod cleifion yn derbyn gwybodaeth ddigonol am eu cyflwr a'u cynllun gofal arfaethedig, cyn unrhyw archwiliad neu driniaeth. Dylai'r wybodaeth hon gydymffurfio â'r egwyddorion a amlinellir yng nghyllwbiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol ynglŷn â chydysyniad gwybodus	Mae pob safle wedi penodi Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid. Mae deiliad y swydd yn cynorthwyo timau meddygol i sicrhau bod cleifion yn wybodus. Mae gofal eilaidd yn adeiladu eisoes ar sail y wybodaeth a ddarparwyd gan optometryddion ar ffurf taflenni gwybodaeth, fideo triniaeth cataractau, trafodaeth am gydsyniad, a chopi o'r llythyr cleifion allanol yn ôl y gofyn.	Swyddog Cyswllt Gofal Llygaid	Yn parhau
Pryderon nad oes dim gwaith monitro penodol ar gyfer cleifion dilynol	a) Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y gall Systemau Gweinyddu Cleifion ddarparu data ynglŷn â'r cyfnod cyn yr apwyntiad dilynol a argymhellir gan glinigwyr, a'r cyfnod cyn yr apwyntiad dilynol mewn gwirionedd, yn ôl llwybr gofal. b) Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu ar gyfer y rhai sydd â'r anghenion iechyd mwyaf gyntaf (boed hynny'n gleifion	Wedi'i gyflawni ar bob safle. Mae pob system gweinyddu cleifion yn cofnodi'r dyddiad targed y mae'r clinigydd wedi'i bennu ar gyfer apwyntiad dilynol cleifion. Mae BIPBC wedi cyflwyno rheolaeth glinigol ar flaenoriaethu'r rhestr aros (yn rhan o'r cynllun peilot ar ddau safle). Trefnir apwyntiadau i gleifion ar sail risg		Wedi'i gwblhau Wedi'i gwblhau

	newydd neu apwyntiadau dilynol), gan wneud y defnydd gorau o'r holl sgiliau ac adnoddau sydd ar gael c) Rhaid i dimau clinigol ddogfennu'r drefn ddilynol a ddewisir ar gyfer pob achos yn glir. Dylid gwneud hyn yn gyson yn unol â phrotocolau y cytunir arnynt. Dylid hysbysu cleifion am unrhyw newidiadau i'r cynllun.	glinigol. Gorllewin Mae ffurflenni canlyniadau'n cael eu llenwi yn dilyn pob ymweliad â'r clinig â manylion y cyfnod adolygu neu'r cynllun rhyddhau/triniaeth yn unol â llwybrau clinigol. Mae manylion unrhyw brofion a/neu apwyntiadau gofynnol pellach yn cael eu cofnodi a chaiff y wybodaeth ei storio'n electronig ar PIMS. Trafodir y cynllun cleifion unigol hwn â'r claf fel rhan o'r ymweliad â'r clinig. Dwyrain Bydd y Grŵp Gofal Llygaid Lleol yn datblygu cyfres o lwybrau clinigol, gan gynnwys cyfundrefnau dilynol, yn unol â'r rhai a nodir gyda'r Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio. Canol Wedi'i gyflawni	Grŵp Llwybr Lleol Grŵp Llwybr Lleol	Wedi'i gwblhau Medi 2017 Wedi'i gwblhau
Diffyg rhoi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â pholisi niwed cleifion Llywodraeth Cymru	a) Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod mecanweithiau ar waith i adolygu adroddiadau am ddigwyddiadau ac i nodi patrymau posibl sy'n rhoi rhybudd cynnar am fethiannau system mwy difrifol b) Pan fydd digwyddiadau, rhaid i fyrddau iechyd sicrhau, yn unol â pholisiau Llywodraeth Cymru mewn	Defnyddir system Datix i roi gwybod am ddigwyddiadau ar bob safle ac i'w hadolygu. Mae'r system yn darparu'r dull o gofnodi digwyddiadau a chanfod/cofnodi eu difrifoldeb. Mae clinigwyr a rheolwyr yn mynd i'r afael â digwyddiadau, sy'n cael eu huwchgyfeirio i'w hadolygu yn unol â'r polisi a'u ffurfioli drwy'r strwythur Ansawdd a Diogelwch. Mae niwed cleifion	Rheolwyr Cyffredinol Rhanbarthol; Pennaeth Nyrsio	Yn parhau

	perthynas â niwed i gleifion, fod y rhain yn cael eu hadrodd fel Digwyddiadau Andwyol Difrifol.	yn eitem ar yr agenda mewn grwpiau llygaid misol.		
Diffyg capasiti/bregusrwydd gwasanaethau oherwydd dibynnu'n ormodol ar ymgynghorwyr. Materion yng nghyswllt diffyg capasiti, recriwtio, a diffyg buddsoddi mewn gwasanaethau.	a) Rhaid i fyrddau iechyd fod yn weithredol wrth ddatblygu cynlluniau gweithlu sy'n mynd ati i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion yn y capasiti gwasanaeth cyfredol a'r cyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd i liniaru'r risg i ofal cleifion. Dylai'r cynlluniau hyn geisio manteisio i'r eithaf ar gapasiti trwy wneud y defnydd mwyaf effeithiol o sgiliau staff meddygol a staff nad ydynt yn staff meddygol sydd ar gael, yn ogystal â'r lle/cyfleusterau sydd ar gael b) Rhaid i fyrddau iechyd ystyried ffyrdd i weithio'n agosach gyda chydweithwyr ym maes gofal sylfaenol. Er enghraifft, trwy ddarparu offer (a hyfforddiant) ar gyfer practisau optometreg i ganiatáu iddynt fireinio atgyfeiriadau a/neu asesu cleifion sefydlog. Mae angen gwneud hyn mewn modd wedi'i gynllunio a strategol o dan	Mae'r bwrdd iechyd wedi ymrwymo yng nghynllun gweithredol BIPBC ar gyfer 2017-18 i ymgymryd ag adolygiad gwasanaeth llawn o faes offthalmoleg. Bydd hwn yn cynnwys capasiti a'r galw, y gweithlu, a strwythur ystadau. Datblygu ac adeiladu swît retina meddygol yn Ysbyty Gwynedd i'w chwblhau yn ystod 17-18. Mae chwistrellwyr sy'n nyrsys wedi'u penodi a byddant yn chwistrellu'n annibynnol erbyn mis Mehefin 2017. Mae prosiect mawr i ailddatblygu safle Wrecsam Maelor wedi cychwyn. Mae datblygu canolfan ddydd a diagnosteg a thriniaeth yn waith allweddol i'r cynllun strategol hwn ei gyflawni. Cychwynnodd lleoedd hyfforddi mewn arbenigedd i optometryddion, a ariennir gan Lywodraeth Cymru (retina meddygol x 5), yn 2016. Rhoddwyd lleoliadau clinigol mewn clinigau gofal eilaidd ar waith. Gorllewin Mae gwaith o reoli apwyntiadau dilynol ynghylch AMD gwlyb sefydlog yn cychwyn yn Ysbyty Alltwn ym mis Chwefror 2017 – mae wedi'i arwain gan nyrsys. Ceir hefyd	Cyfarwyddwr Gofal Eilaidd Rheolwr Cyffredinol Rhanbarthol Pennaeth Nyrsio Cyfarwyddwr yr Ysbyty Rheolwr Cyffredinol Rhanbarthol; Pennaeth Nyrsio	Maw 18 Medi 17 Meh 17 Maw 18 Chwe 17

	reolaeth y bwrdd iechyd	rithadolygiad gan ymgynghorydd retina meddygol. Dwyrain Mae cynllun datblygu optometryddion i'w gyflwyno	Grŵp Llygaid Lleol	Medi 17
Dylai byrddau iechyd ddysgu gan y profiadau yn dilyn y cynnydd a wnaed mewn mannau eraill	a) Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau eu bod yn llawn ymgysylltu â Bwrdd Gofal wedi'i Gynllunio Offthalmoleg i gynorthwyo yn y broses o rannu dysgu â staff mewn ardaloedd eraill b) Dylai Llywodraeth Cymru ystyried a oes angen datblygu dulliau gweithredu eraill i annog dysgu rhwng byrddau iechyd yn ogystal â dulliau mwy integredig i fynd i'r afael â themâu/problemau cyffredin sy'n cael eu profi ledled Cymru – er enghraifft, cyflwyno chwistrelliadau gan staff nad ydynt yn staff meddygol.	Mae'r Arweinydd Clinigol, y Rheolwr Cyffredinol Rhanbarthol a rheolwr arbenigedd y safle ar Fyrddau Gofal wedi'i Gynllunio Offthalmoleg Cymru ac yn ymgysylltu â nhw. Cynhelir grŵp cydweithredol Gofal Llygaid BIPBC chwe gwaith y flwyddyn er mwyn bwrw ymlaen â chamau o'r bwrdd gofal wedi'i gynllunio a monitro'r camau hynny. Cynhelir grwpiau llwybr ar bob safle yn fisol gan ganolbwyntio ar gamau'r cynllun gweithredu ynghylch offthalmoleg. Ymateb Llywodraeth Cymru		Yn parhau Yn parhau Yn parhau
Pwysigrwydd rôl y cydlynnydd AMD	Oherwydd gofynion y rôl a phwysigrwydd sicrhau bod cydlynnydd AMD ar gael yn gyson, dylai'r byrddau iechyd ystyried a yw un cydlynnydd AMD yn ddigon ar gyfer y	Mae rôl y cydlynnydd AMD wedi hen ymsefydlu ar bob un o'r tri safle. Mae strwythur ategol ar waith er mwyn sicrhau dilyniant yn y gwasanaeth		Wedi'i gwblhau

	gwasanaeth gofal llygaid			
Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid – diffyg defnydd o'r rôl gan staff eraill	Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o argaeledd y gwasanaeth lleol gan swyddogion cyswllt gofal llygaid. Sicrhau bod gan gleifion fynediad at gyngor a chymorth perthnasol.	Mae swyddog cyswllt gofal llygaid wedi'i leoli ym mhob un o'r adrannau offthalmoleg ac felly mae pob aelod staff yn ymwybodol ac wedi'i gynnwys yn llwyr.		Wedi'i gwblhau
Swyddogion Cyswllt Gofal Llygaid – diffyg capasiti/argaeledd	Dylai byrddau iechyd sicrhau bod swyddog cyswllt gofal llygaid ar gael yn eu clinigau gofal llygaid drwy'r amser, a dylid ystyried a yw un swyddog cyswllt gofal llygaid yn ddigon ar gyfer y gwasanaeth gofal llygaid.	I'w ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r gwasanaeth (y cynllun gweithlu)	Cyfarwyddwr Gofal Eilaidd	Ebr 17
Pryderon wedi'u lleisio gan staff ynglŷn â diffyg prosesau ar waith i gyflwyno sylwadau/awgrymiadau i reolwyr y bwrdd iechyd	Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod dulliau ar waith i ganiatáu i'r holl staff leisio unrhyw bryderon/awgrymiadau a allai fod ganddynt ynglŷn â gwelliannau i ddarpariaeth y gwasanaeth. Dylai'r broses hon sicrhau bod adborth yn cael ei roi i unigolion yn rheolaidd.	Mae cyfarfodydd gofal llygaid lleol a Llywodraethu Clinigol ym maes offthalmoleg yn creu cyfle i gael trafodaeth mewn fforwm agored rhwng timau clinigol amlddisgyblaethol a'r tîm rheoli – mae hynny'n galluogi'r broses o leisio unrhyw gwestiynau, awgrymiadau neu bryderon ac yn ei hannog. Mae BIPBC yn darparu gwasanaeth ar gyfer rhoi gwybod am faterion neu i gyfathrebu â'r Prif Weithredwr drwy system bost ar-lein drwy'r fewnwyd.		Yn parhau Yn parhau
Diffyg cynnydd ar wasanaethau peilot a ariennir gan Lywodraeth Cymru	Dylai byrddau iechyd ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd presennol eu gwasanaethau peilot a ariennir gan Lywodraeth Cymru	Mae rhithwasanaeth peilot AMD gwlyb yn cychwyn yn ardal y gorllewin ym mis Chwefror 2017.	Rheolwr Cyffredinol Rhanbarthol (y Gorllewin)	Chwe 2017
Mae angen rhagor o eglurder ynglŷn â rôl yr optometrydd wrth iddi ddatblygu	I wneud defnydd mwy effeithiol o optometryddion, rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu eglurder ar gyfer byrddau iechyd ynglŷn ag yswiriant indemniad, trefniadau	Ymateb Llywodraeth Cymru		

	adnoddau a chyllid, hyfforddiant/cymwysterau a mecanweithiau cyfathrebu			
Mae angen gwneud defnydd ychwanegol o optometryddion er mwyn cynyddu capasiti (enghraifft Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) a lleihau'r baich ar wasanaethau gofal eilaidd	Dylai byrddau iechyd ystyried y defnydd ychwanegol o optometryddion er mwyn cynyddu capasiti a lleihau'r baich ar ofal eilaidd. Bydd angen i fyrddau iechyd sicrhau bod materion yn cael eu hegluro ynglŷn ag yswiriant indemniad, trefniadau adnoddau a chyllid, hyfforddiant a chyfathrebu ar gyfer optometryddion.	Mae grwpiau llwybr lleol yn gweithio gyda chynrychiolydd optometryddion wrth i leoedd gwag ddod i'r amlwg ym maes offthalmoleg. Bydd hyn hefyd yn rhan o strategaeth y gweithlu ar gyfer yr adolygiad o'r gwasanaeth offthalmoleg.	Arweinwyr Clinigol Rheolwyr Cyffredinol Rhanbarthol Cyfarwyddwr Gofal Eilaidd	Ar unwaith Maw 18
Problemau ynglŷn â chydberthnasau gwael rhwng staff gofal sylfaenol a staff gofal eilaidd yn cael effaith ar y cynnydd ar gyfer datblygiadau gwasanaeth	Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod y staff perthnasol yn ymgysylltu â'r grŵp gofal llygaid lleol. Rhaid i'r grŵp gwrdd yn rheolaidd a chael ei gadeirio gan aelod o'r tîm gweithredol. Un amcan allweddol yw gwella'r gydberthynas weithio rhwng staff gofal sylfaenol a staff gofal eilaidd, er mwyn meithrin mentrau gweithio ar y cyd.	Mae grŵp cydweithredol Gofal Llygaid BIPBC yn cwrdd chwe gwaith y flwyddyn ac mae cynrychiolaeth dda gan feysydd gofal sylfaenol ac eilaidd arno. Mae grwpiau llwybr lleol yn cwrdd bob 4-6 wythnos a cheir cynrychiolwyr o dimau amlddisgyblaethol, sy'n cynnwys staff meddygol, nyrsio, optometreg, ac orthoptig; mae hefyd yn cynnwys rheolwyr gwasanaeth ac uwch-reolwyr, trefnu apwyntiadau, a chofnodion iechyd. Bydd gwaith yn mynd rhagddo i ystyried y dull o gyfathrebu'n ehangach â'r tîm ym meysydd gofal sylfaenol ac eilaidd fel ei gilydd. Mae grŵp cyswllt optometreg rheolaidd ar waith a cheir mewnbwn rhagorol gan optometryddion i grwpiau llygaid lleol a	Barry Williams, Rheolwr Cyffredinol Rhanbarthol	Yn parhau

		strategol.		
Nid oedd gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gynghorydd optometrig yn y swydd ar adeg ein hadolygiad.	Rhaid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr recriwtio cynghorydd optometrig parhaol i'r swydd yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru.	Cynhaliwyd cyfweiliad a phenodwyd. Bydd yn cychwyn yn y swydd ym mis Chwefror 2017.	Barry Williams, Rheolwr Cyffredinol Rhanbarthol	Wedi'i gwblhau
Lleisiwyd pryderon am feini prawf gwahanol yn cael eu defnyddio gan ymgynghorwyr gwahanol, sy'n golygu o ganlyniad fod rhai cleifion yn cael apwyntiadau dilynol yn ddiangen neu'n cael eu trin pan fydd y tebygolrwydd o wella'n isel	Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau bod gan eu gwasanaeth AMD bolisi sy'n amlinellu'r meini prawf ar gyfer rhyddhau cleifion sydd ag AMD gwlyb, yn unol â chanllawiau'r Coleg Brenhinol. Y nod yw sicrhau nad yw cleifion yn aros yn y gwasanaeth yn hwy nag sydd ei angen. Gwneud y defnydd gorau o'r capasiti ar gyfer cleifion sydd fwyaf tebygol o fod ar eu hennill. Gallai cydymffurfiaeth â'r polisi fod yn rhan o'r archwiliad gwasanaeth blynyddol.	Bydd ymgynghorydd retina meddygol ac arweinwyr nyrsio yn archwilio llwybrau er mwyn sicrhau y cedwir atynt.	Arweinwyr Clinigol a Nyrsio	Medi 2017
Systemau TG annigonol ar gyfer casglu data defnyddiol. Ymwybyddiaeth gyfyngedig o ddata ynglŷn â chapasiti a galw.	Mae angen gwneud gwelliannau i'r systemau rheoli gwybodaeth o fewn byrddau iechyd i alluogi'r gwaith o gasglu data ynglŷn â chapasiti a galw (perfformiad) yn gywir, i ganiatáu cynllunio'r gweithlu mewn modd mwy gwybodus, ac i sicrhau bod darpariaeth yn seiliedig ar angen cleifion.	Mae tîm Gwybodaeth BIPBC yn gweithio gyda thimau clinigol a gweithredol i sicrhau bod gwell gwybodaeth am gapasiti a'r galw yn fisol. Mae grŵp misol wedi'i sefydlu i sicrhau ansawdd data.	Cyfarwyddwr Perfformiad	Ar unwaith
Materion sy'n ymwneud â rhannu gwybodaeth	Mae angen gwneud gwelliannau i'r mynediad at wybodaeth cleifion, a'r broses o'i rhannu, o fewn ardaloedd y bwrdd iechyd i wella effeithlonrwydd gwasanaethau.	Mae proses o rannu gwybodaeth rhwng canolfannau diagnosteg a thriniaeth offthalmoleg cymunedol ac ymgynghorwyr eilaidd ar waith eisoes ac mae unrhyw faterion yn cael eu monitro drwy grwpiau llwybr lleol	Grwpiau Llwybr Lleol	Wedi'i gwblhau
Nid yw cleifion yn cael eu hatgyfeirio bob amser ar gyfer	Rhaid i fyrddau iechyd sicrhau eu bod yn atgoffa staff am bwysigrwydd atgyfeirio'r	Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cael ei atgoffa am bwysigrwydd hyn yn y fforymau	Arweinwyr Clinigol	Wedi'i gwblhau

eu hasesiad golwg gwan cychwynnol gan staff gofal eilaidd. (Y defnydd o optometryddion)	holl gleifion cymwys i optometrydd achrededig ar gyfer asesiad golwg gwan	a ganlyn: Grŵp Cydweithredol Gofal Llygaid BIPBC Grwpiau Llwybr Lleol Grŵp Cyswllt Optometryddion		
Diffyg ymwybyddiaeth y cyhoedd o ofal llygaid yn gyffredinol	Mae angen i Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau iechyd ystyried sut y gellir gwneud y cyhoedd yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd profion llygaid rheolaidd, a materion gofal llygaid yn gyffredinol, yn ogystal â'r symptomau i sylwi arnynt sy'n gysylltiedig â chyflyrau llygaid mwy difrifol a phwysigrwydd ceisio cyngor gofal iechyd yn gyflym. Mae angen darparu rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau/gweithwyr proffesiynol eraill sydd ar gael i weld/trin cleifion mewn perthynas â'u cyflyrau llygaid.	Anogir gofal iechyd gochelgar mewn gofal eilaidd – cynghorir cleifion i roi'r gorau i ysmegu, ac yn y blaen. Ond mae angen darparu tystiolaeth bod 'pob cyswllt yn cyfrif' a dechrau cofnodi. Mae gwaith i'w ddatblygu a fydd yn un o gamau cynllun gweithredu offthalmoleg. Ymgysylltu â mentrau gofal iechyd fel 'wythnos glawcoma' a chyflyrau llygaid isarbenigedd eraill.	Grwpiau Llwybr Lleol	Maw 18